



**Bwletin Awdurdod S4C**  
**Cyfarfod 354 – 22 Mawrth 2012**  
**S4C, Caerdydd**

---

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2012.

**1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 353**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 353.

**2. Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig.

Nododd ei fod ef ac IHJ wedi cyfarfod ddoe â Carwyn Jones, Prif Weinidog Llywodraeth Cymru a Huw Lewis, y Gweinidog Treftadaeth. Cafwyd cyfarfod adeiladol a nododd HJ ac IHJ awydd S4C i adnabod a chydweithio o fewn y meysydd hynny lle'r oedd gorgyffwrdd naturiol rhwng gwaith S4C a chyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad.

**3. Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad. Cadarnhaodd IHJ fod Dafydd Rhys wedi ei benodi yn Gyfarwyddwr Cynnwys i ddechrau ar 10.04.2012.

Roedd wedi dechrau sawl ffrwd gwaith a chyfeiriodd yn benodol at:

- **Digidol** – Bydd EM yn arwain grŵp i ymateb i'r ymgynghoriad digidol a chreu cynllun gwaith.
- **Tariffau a chostau** - Bwriedir penodi person allanol i edrych ar gostau adnoddau a thalent.
- **Mesuriadau Perfformiad** – Bydd y tîm rheoli yn trafod y pwnc cyn cyflwyno argymhellion i'r Pwyllgor Cynnwys ym mis Ebrill.

Trafodwyd oblygiadau targedau ariannol i'r Gwasanaethau Mynediad. Nododd yr Aelodau rhai elfennau i'w hystyried wrth i'r Swyddogion ceisio blaenoriaethu'r gwasanaethau.

**4. Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu**

Cyflwynodd GR ei adroddiad ar ran yr Adran Gomisiynu.

Trafodwyd ymateb y cyhoedd i'r rhaglenni dyddiol a adlewyrchir yn adroddiad Gwifren Gwylwyr. Mae'r Swyddogion a'r Cynhyrchwyr yn cydweithio i wella'r sefyllfa.

Yn dilyn sylwadau'r enillydd am **Cân i Gymru** gofynnir i'r Pwyllgor Cynnwys drafod datblygu'r gystadleuaeth.

Mynegwyd siom fod rhaglen uchafbwyntiau **Sgorio** wedi newid i slot hanner awr yn hytrach nag awr. Nododd GR fod hyn yn dilyn colli'r slot hwyr yn yr amserlen.

Croesawyd yr amrywiaeth ymhlith y gwesteion ar gyfres ddiweddar **Jonathan**.

## **5. Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Gwifren
- Adroddiad Cyllid
- Materion Personél
- Adroddiad o'r Bwrdd Masnachol